

### **Fideo: Peter Harper yn esbonio cysyniad yr ôl troed carbon**

Peter Harper ydw i, a fy rôl i oedd datblygu cyfrifiannell carbon i fyfyrwyr israddedig Y Brifysgol Agored sy'n astudio'r amgylchedd ei defnyddio.

Mae trosiad yr ôl troed wedi'i fenthg o fath arall o ddadansoddi, sef cyfrifo 'ôl troed' ecolegol, lle rydych yn ceisio cyfrifo faint o dir sydd ei angen ar gyfer mathau amrywiol o weithgareddau dynol, ac rydych yn adio'r cyfan ar ei gilydd, ac yna mae hynny'n rhoi arwynebedd i chi. Felly, mae'n debyg i ôl troed.

A gallech ddweud mai ôl troed carbon y byd yw'r holl allyriadau sydd gan bob un ohonom. Felly, gadewch i ni feddwl am yr holl allyriadau a'r holl bobl ar y ddaear, ac os rhannwch chi un â'r llall, byddwch chi'n cael ôl troed cyfartalog pob unigolyn, sydd tua chwe thunnell y flwyddyn [*rhywbeth felly*] sy'n ormod. Wrth gwrs, nid yw'n hollol deg dweud ein bod ni i gyd yr un peth â'r cyfartaledd oherwydd, yn amlwg, dydyn ni ddim. Mae pobl Prydain yn defnyddio llawer iawn yn fwy na'r cyfartaledd fel bod ganddynt ôl troed mwy.

### **Fideo: Peter Harper yn esbonio beth yw ystyr sero net**

Yn syml, mae sero net yn cydnabod na allwch gyrraedd sero, mae yna rai pethau na allwch gael gwared arnynt, fel pethau ym myd amaeth, a rhai pethau mewn diwydiant y mae'n anodd iawn cael gwared ohonynt. Felly, yn y pen draw, bydd ychydig bach o allyriadau bob amser felly, os ydych yn ceisio cyrraedd sero, rhaid i chi gael rhai pethau negyddol hefyd sy'n tynnu CO2 allan o'r atmosffer. Ac felly bydd y cydbwysedd rhwng y ddau yn rhoi sero net i chi.